# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 1 Ebrill 2021 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 12 Mai 2021 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 19 Mai 2021 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Thomas

Aelod Cabinet Economi a Chymuned

**PWNC** Dileu Dirwyon Llyfrgelloedd

**PENDERFYNIAD:**

Gwneud i ffwrdd â dirwyon llyfrgell o'r 1af Ebrill 2021 a dileu unrhyw ddirwyon presennol o'r dyddiad hwn i oedolion sy'n defnyddio'r Llyfrgelloedd cyhoeddus yng Ngwynedd.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cyng. Gareth Thomas<br>Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Nia Gruffydd<br>Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgelloedd |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 1/4/2021 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :** Dileu Dirwyon Llyfrgelloedd

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Gwneud i ffwrdd â dirwyon llyfrgell o'r 1af Ebrill 2021 a dileu unrhyw ddirwyon presennol o'r dyddiad hwn i oedolion sy'n defnyddio'r Llyfrgelloedd cyhoeddus yng Ngwynedd.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

1. Yn hanesyddol, codwyd dirwyon llyfrgell ar lyfrau a deunyddiau eraill oedd dros eu dyddiad dychwelyd fel dull o sicrhau bod llyfrau o'r fath yn parhau i fod ar gael i gynifer o ddarllenwyr â phosibl.
2. Dros amser, daeth dirwyon llyfrgelloedd yn rhan annatod o gyllideb gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, ac mae dirwyon am eitemau hwyr bellach yn bennawd yn erbyn ein targedau incwm.
3. Cafodd dirwyon llyfrgell ar lyfrau plant a phobl ifanc dan ddeunaw oed eu hatal yng Ngwynedd yn y 2000au gan yr ystyriwyd bod dirwyon yn rhwystr sy'n atal pobl ifanc a theuluoedd rhag defnyddio'r llyfrgell.
4. Mae tuedd gynyddol gan Awdurdodau Llyfrgell i roi'r gorau i godi dirwyon am lyfrau hwyr. Mae o leiaf 15 Awdurdod Llyfrgell ym Mhrydain wedi atal dirwyon o fewn y blynyddoedd diwethaf, ac mae Gweriniaeth Iwerddon wedi atal dirwyon yn llwyr ers Ionawr 2019. Llyfrgelloedd Ymddiriedolaeth Awen (Sir Pen y Bont ar Ogwr) oedd y cyntaf i wneud i ffwrdd â dirwyon yng Nghymru yn 2019.
5. Mae yna lawer o resymau da dros wneud i ffwrdd â dirwyon llyfrgell.
   5.1. Mae profiad a gwybodaeth anecdotal yn awgrymu bod pobl yn ystyried dirwyon fel rhwystr i aelodaeth a defnydd llyfrgell. Yn ogystal, mae dirwyon yn effeithio'n

anghymesur ar y rhai ar incwm is a gall dirwyon greu cysylltiad negyddol â defnydd llyfrgell.

5.2. Mae dirwyon yn creu ymdeimlad o ddiflastod neu ofn ac nid yw'n rhoi anghenion defnyddwyr yn greiddiol i beth rydym yn ei wneud. Mae'r neges o gosb a roddir yn groes i'n negeseuon o lyfrgelloedd agored a chroesawus,.

5.3. Mae profiad negyddol yn brofiad cwsmer gwael. Mae dirwy yn brofiad gwael all wneud i ddefnyddiwr beidio â defnyddio llyfrgell byth eto neu beidio â dychwelyd llyfrau hwyr.

5.4. Mae Llyfrgelloedd yn adnodd amhrisiadwy i bawb yn y gymuned ac rydym am gael gwared ar unrhyw rwystrau a allai atal pobl rhag gwneud defnydd llawn ohonynt.

5.5. Mae incwm o ddirwyon llyfrgell wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. Nid ydym yn gallu cyrraedd ein targed incwm o £11,910, a gellir dadlau fod dirwyon yn llif incwm annibynadwy sy'n lleihau ac na allwn ddibynnu arno yn y tymor hir.

5.6. Mae defnyddwyr sy'n cadw draw oddi wrth Lyfrgelloedd oherwydd ofn cael neu dalu dirwy (ac mae hyn hefyd yn ymestyn i blant a phobl ifanc o fewn teuluoedd) yn cael eu hamddifadu o wasanaethau a gweithgareddau ehangach y llyfrgell, megis mynediad am ddim i gyfrifiaduron, help gyda gwefannau'r Llywodraeth, gweithgareddau plant.

5.7. Mae peth ymchwil yn dangos bod dileu dirwyon yn cynyddu benthyca llyfrau, yn denu mwy o deuluoedd i'r llyfrgell, a amlygir fwyfwy ymhlith grwpiau o ddefnyddwyr sy'n profi amddifadedd lluosog.

5.8. Mewn ymgynghoriad staff a gynhaliwyd yn Tachwedd 2020, (cyfradd ymateb 66%), nododd 87% o ymatebwyr eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod codi dirwyon ar lyfrau hwyr yn rhwystr i bobl ddefnyddio'r llyfrgell. Roedd 80% o'r rhai wnaeth ymateb yn credu dylid gwneud i ffwrdd gyda dirwyon yn gyfan gwbl.

5.9. Mewn Ymgynghoriad Defnyddwyr a gynhaliwyd yn Rhagfyr-Ionawr 2021, holwyd y cwestiwn:

A yw dirwyon ar lyfrau llyfrgell hwyr yn rhwystr i chi ddefnyddio'r llyfrgell? Allan o 134 o ymatebion, atebodd 25% bod dirwyon yn rhwystr (oedd yn codi i 33% pan yn ystyried yr ymateb arlein yn unig). Mae hyn yn sampl o ddefnyddwyr ac 86% ohonynt wedi gwneud defnydd o'r gwasanaeth Llyfrgell yn ystod y pandemig.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

1. Ar gyfer 2020/21 roedd ein targed incwm ar gyfer llyfrau hwyr yn £11,910. Oherwydd Covid-19, nid oes incwm o gwbl wedi ei wireddu yn erbyn y pennawd hwn. Fodd bynnag, yn 2019/20 ein incwm gwirioneddol yn erbyn y targed hwn oedd £9,545. Mae diffyg blynyddol yn erbyn ein targed incwm, ac nid yw hyn yn debygol o newid.
2. Mae datblygiadau fel cyfrifon ar-lein a modd i ddefnyddwyr adnewyddu llyfrau eu hunain wedi cyfrannu at ddefnyddwyr yn gallu cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu cyfrifon, ac o'r herwydd effeithir ar ein lefelau incwm trwy ddirwyon.
3. Bydd datblygiad ap Llyfrgell a modd benthyca llyfrau trwy ddyfais glyfar megis ffon, yn ogystal a gallu adnewyddu eitemau o bell, hefyd yn cael effaith ar incwm dirwyon llyfrau.
4. Bydd unrhyw ddirwyon presennol ar gyfrifon defnyddwyr llyfrgelloedd hefyd yn cael eu dileu o'r 1 Ebrill 2021.

5. Bydd dychwelyd eitemau a logir yn hwyr e.e. DVDs ac adnoddau Dysgu Ieithoedd (ac eithrio Cymraeg) yn dal i ddenu tâl gan fod hyn ar ffurf ail gyfnod benthyciad, yn hytrach na thâl hwyr.
6. Byddwn yn defnyddio'r cyfle hwn i hyrwyddo a marchnata'r Llyfrgell fel gwasanaeth croesawus sydd wedi dileu rhwystrau presennol i ddefnydd.
7. Byddwn yn cryfhau ein systemau gyrru negeseuon am lyfrau sydd eu hangen neu angen eu dychwelyd.
8. Byddai gweithrediad hyn yn gost niwtral i'r Cyngor, gan yr argymhellir bod y gwasanaeth yn ariannu'r bwlch yn y gyllideb.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid:

*Rwy'n cefnogi penderfyniad yr Aelod Cabinet i wneud i ffwrdd â dirwyon llyfrgell o'r 1af o Ebrill 2021, ac yn cadarnhau fod ail-strwythuro sefydliad staffio'r Adran yn creu arbedion parhaol digonol i ariannu'r penderfyniad.*

Swyddog Monitro:

*Mae'r sail ar gyfer yr argymhelliad yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth priodol o fanteision all ddeillio o ddileu dirwyon. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.*

Aelod/au Lleol: Dim yn fater lleol